



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Castell-nedd Port Talbot

Prospectws Tai Fforddiadwy

2026-27

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad.....	3
Adran 1 – Proffil CnPT	3
Data Cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol CnPT 2021.....	3
Adran 2 – Blaenoriaethau Tai Strategol	4
Deiliadaeth	5
Proffil Stoc Dai Fforddiadwy CnPT	6
Adran 3 – Galw am Dai.....	6
Digartrefedd.....	7
Adran 4 – Rhaglenni Grant Cyfalaf Tai Fforddiadwy.....	8
Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu	10
Cronfa Tai â Gofal.....	10
Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro	10
Cytundeb Adran 106	11
Adran 5 – Monitro a Llywodraethu.....	12

Cyflwyniad

Mae'r prospectws hwn yn rhoi crynodeb o'r angen am dai a'r galw amdanynt yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn amlinellu ein blaenoriaethau tai strategol a sut rydym yn bwriadu rheoli Rhaglenni Grant Cyfalaf Tai Llywodraeth Cymru i ddarparu cynifer o dai fforddiadwy ychwanegol â phosib. Defnyddir y prospectws hwn gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod pob datblygiad tai fforddiadwy arfaethedig yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau tai strategol.

Adran 1 – Proffil CnPT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol CnPT ar yr arfordir rhwng Dinas a Sir Abertawe i'r gorllewin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. I'r gogledd mae siroedd Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o dros **44,217** hectar ac mae'n cynnwys dwy ardal ddaearyddol amlwg – ardaloedd y Coridor Arfordirol ar hyd yr M4, sef Castell-nedd a Phort Talbot, a'r pum ardal mwy gwledig y cymoedd: Dyffryn Aman, Cwm Afan, Cwm Dulais, Cwm Nedd a Chwm Tawe. O ran dosbarthiad gofodol CnPT, mae tua **37%** o'r preswylwyr yn byw yn ardal ofodol Castell-nedd, mae traean arall yn byw ym Mhort Talbot, ac mae'r ardaloedd gofodol eraill yn cyfrif am **9%** o drigolion yr awdurdod.

Data Cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol CnPT 2021

Mae maint y boblogaeth wedi cynyddu **1.8%**, o oddeutu **139,800** yn 2011 i **142,300** yn 2021. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru (**1.4%**).

Cynnydd o **15.5%** yn nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn, gostyngiad o **2.3%** yn nifer y bobl 15 i 64 oed, a chynnydd o **2.5%** yn nifer y plant o dan 15 oed ers 2011.

Roedd **13.9%** o aelwydydd Castell-nedd Port Talbot yn cael eu rhentu'n breifat. Cynyddodd y ffigur hwn **10.2%** yn 2011.

Roedd ychydig yn llai nag un o bob pum aelwyd (**19.2%**) yn byw mewn tai rhent cymdeithasol, o'i gymharu ag **19.1%** yn 2011.

Fe'i nodwyd yn y **9fed** safle o ran cyfanswm poblogaeth allan o'r **22** awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei fod un safle'n is o'i gymharu â 2011.


Adran 2 – Blaenoriaethau Tai Strategol

Mae **Cynllun Tai a Digartrefedd CnPT 2024–2027** yn cadarnhau ein bod yn awyddus i holl ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot gael mynediad at dai diogel a phriodol. **DOLEN:** [Cynllun Strategol Tai a Digartrefedd 2024-27.pdf](#)

Er mwyn cyflawni hyn, mae holl aelodau'r bartneriaeth tai strategol leol wedi ymrwymo i gydweithio i adeiladu'r cartrefi cywir ar gyfer y bobl gywir yn y lle cywir, fel cyfraniad mawr at y blaenoriaethau tai strategol canlynol:

- **Cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy** drwy flaenoriaethu datblygiadau sy'n diwallu anghenion lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro, a chefnogi'r trosglwyddiad i ailgartrefu cyflym.
- **Galluogi byw'n annibynnol a lleihau'r pwysau ar wasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol** drwy ddarparu cartrefi hygyrch ac addasadwy a llety arbenigol, gan gynnwys cynlluniau'r Gronfa Tai â Gofal.
- **Manteisio i'r eithaf ar y stoc dai bresennol** drwy gefnogi adnewyddu tai gwag, gwella effeithlonrwydd ynni, ac annog amrywiaeth mewn deiliadaeth i ddiwallu ystod o anghenion aelwydydd.
- **Cydweddu buddsoddiad mewn tai â blaenoriaethau adfywio** i adfywio cymunedau, cefnogi twf economaidd, a sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at greu lleoedd a chymdogaethau cynaliadwy.

Mae'r **Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2011–2026** yn rhannu CnPT yn 8 ardal ofodol fel a ganlyn:



Deiliadaeth

Mae'r ffeithluniau isod yn dangos cyfansoddiad y stoc dai yn CnPT fel yr oedd yn 2024, o ran deiliadaeth (*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru*). Gellir gweld bod y rhan fwyaf o'r stoc dai yn gartrefi perchnogion preswyl, ac mae oddeutu **45,300** o aelwydydd yn byw yn y math hwn o ddeiliadaeth. Dilynir hyn gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n lletya tua **12,700** o aelwydydd, ac mae'r **8,600** o aelwydydd sy'n weddill yn byw yn y sector rhentu preifat.

Cartrefi perchnogion
preswyl **68%**



Landlord
Cymdeithasol
Cofrestredig **19%**




Rhentu Preifat **13%**



Proffil Stoc Dai Fforddiadwy CnPT

Mae Proffil Stoc Dai Fforddiadwy CnPT yn dangos dosbarthiad tai fforddiadwy yn ôl nifer yr ystafelloedd wely ar draws Pontardawe, Port Talbot a Chastell-nedd. Mae'r data'n dangos crynhoad cryf o eiddo ag 1–3 ystafell wely, yn enwedig yng Nghastell-nedd, tra bod cartrefi mwy (4+ ystafell wely) yn gyfyngedig, ac ychydig sydd ar gael yn unig ym Mhort Talbot ac nid oes unrhyw un ar gael ym Mhontardawe.



Adran 3 – Galw am Dai

Mae system dyrannu tai Tai Tarian, a gyflwynwyd ar ôl trosglwyddo'r stoc yn 2011 o Gyngor Castell-nedd Port Talbot, yn gweithredu drwy broses ymgeisio lle caiff eiddo sydd ar gael eu hysbysebu ac mae tenantiaid yn gwneud cais yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau. (*Tai Tarian yw'r unig Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cynnal rhestr aros*).

Mae nifer y ceisiadau fesul eiddo'n amrywio, gan adlewyrchu gwahaniaethau yn y galw ar draws wardiau etholiadol. Mae'r patrymau hyn yn amlygu anghydraddoldebau sy'n cael eu sbarduno gan leoliad, math yr eiddo a hygyrchedd, gan gynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r pwysau ar dai a helpu i lywio cynllunio a dyrannu adnoddau yn y dyfodol (*gweler y siart ar y dudalen ganlynol*).


Ardal ward	Eiddo a hysbysebwyd lonawr – Rhagfyr 2025	Cyfanswm nifer y ceisiadau lonawr – Rhagfyr 2025	Cyfartaledd o geisiadau fesul eiddo lonawr – Rhagfyr 2025
Aberafan	7	363	52
Aberdulais	2	67	34
Yr Allt-wen	3	148	49
Baglan	5	290	73
Blaen-gwrach a Gorllewin Glyn-nedd	21	553	28
Dwyrain Llansawel	15	227	15
Gorllewin Llansawel	10	703	70
Bryn a Chwmafan	35	1,710	52
Gogledd Bryn-coch	1	48	48
De Bryn-coch	9	297	42
Llangatwg	6	43	7
Cimla a Phelenna	5	248	50
Coedffranc Canolog	22	809	40
Gogledd Coedffranc	1	82	82
Gorllewin Coedffranc	2	64	64
Creunant, Onllwyn a Blaendulais	30	330	13
Cwmlllynfell ac Ystalyfera	76	691	17
Cymer a Glynorrwg	11	319	29
Dyffryn	7	330	55
Dwyrain Glyn-nedd a Glyn-nedd Canolog	8	12	2
Godre'r-graig	4	136	34
Gwauncaegurwen a Brynman Isaf	23	594	27
Gwynfi a Chroeserw	19	670	35
Margam a Thai-bach	8	560	80
Dwyrain Castell-nedd	27	1,290	48
Gogledd Castell-nedd	21	775	39
De Castell-nedd	27	1,584	63
Pontardawe	17	563	33
Port Talbot	2	156	78
Resolfen a Thonna	13	399	31
Rhos	6	374	62
Dwyrain Sandfields	56	4,302	88
Gorllewin Sandfields	40	2,829	76
Trebanos	3	138	46
Cyfanswm Terfynol	542	21704	

Digartrefedd

Heb wella mynediad at dai fforddiadwy, ni fydd y Cyngor yn gallu atal digartrefedd na sicrhau bod y rheini sy'n profi digartrefedd yn cael eu hailgartrefu'n gyflym ac yn briodol.

Ymateb CnPT i hyn yw datblygu **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** er mwyn ymateb i'r argyfwng tai cynyddol a gweithio mewn partneriaeth i leihau digartrefedd a lleihau'r ddibyniaeth bresennol ar dai dros dro e.e. Gwely a Brecwast/ystafelloedd gwesty **Dolen:** [Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym](#)

Er mwyn cyflawni'r cynllun dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2027, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda'n partneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu'r cyflenwad o dai, gan gadw anghenion pobl ddigartref wrth wraidd ein cynllun tai strategol.



Ar 31 Mawrth 2026 roedd **257** o aelwydydd mewn llety dros dro (*manylion y math o eiddo y mae ei angen isod*):

81%	Eiddo 1 ystafell wely
14%	Eiddo 2 ystafell wely
3%	Eiddo 3 ystafell wely
4%	Eiddo 4 ystafell wely
0%	Eiddo 5 ystafell wely (<i>Mae 0% yn cynrychioli bod angen 1 eiddo</i>)

Adran 4 – Rhaglenni Grant Cyfalaf Tai Fforddiadwy

Grant Tai Cymdeithasol

Mae'r dyraniadau dangosol cyfredol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2026–29 fel a ganlyn:

Blwyddyn Ariannol	Dyraniad Llywodraeth Cymru
2026/27	£12,819,862
2027/28	£12,819,862
2028/29	£12,819,862
Cyfanswm	£38,459,586

Mae dull strategol o ddyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol wedi'i weithredu, lle mae panel sy'n cynnwys amrywiaeth o uwch-swyddogion CnPT o Ystadau, Cynllunio Strategol, Polisi Cynllunio, Adfywio, Gwasanaethau Digartrefedd a Thai Strategol yn asesu hyfywedd, effaith a manteision y cynllun a gyflwynir. Gall unrhyw gymorth a roddir fod yn destun amodau penodol a bydd yn **ddilys am gyfnod o 2 flynedd o ddyddiad rhoi'r gefnogaeth**. Os nad yw cynllun wedi symud ymlaen o fewn 2 flynedd, bydd angen i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ei ailgyflwyno. Os na chefnogir cynllun, rhoddir y rhesymau dros hynny.

Mae pob partner yn gyfrifol am gyflwyno cyfleoedd datblygu realistig i gefnogi nodau tai strategol Castell-nedd Port Talbot.

Cadarnhawyd holl brosiectau'r Cynllun Datblygu Rhaglenni a gedwir wrth gefn ar ddiwedd 2025/26 gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig perthnasol fel rhai y gellid eu trosglwyddo'n hwylus i'r Brif Raglen, pe byddai'r amgylchiadau'n mynnu hynny. O ganlyniad, bu'n bosib llenwi'r Cynllun Datblygu Rhaglenni tair blynedd cyfan ar gyfer y cyfnod 2026–29 'ymlaen llaw', gan gadw symiau addas i'w cario ymlaen.

Anogir Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i barhau i gyflwyno cynlluniau wrth gefn hyfyw newydd drwy Borth y Cynllun Datblygu Rhaglenni, y gellir eu cynnwys yn y Brif Raglen ar fyr rybudd i liniaru unrhyw danwariant posib yn y dyfodol. Bydd unrhyw gynigion cynlluniau ad-hoc ar gyfer y Brif Raglen a dderbynnir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu hasesu'n rheolaidd gan y Panel Asesu.

Cynghorir Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cyn cyflwyno cais cynllunio, caniatâd cynllunio llawn, a chorff cymeradwyo SuDS etc. mewn modd amserol er mwyn osgoi unrhyw oedi posib.

Dolen: [Ymholiadau cyn cyflwyno cais – Cyngor Castell-nedd Port Talbot](#)

Ni fydd cynlluniau'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Rhaglenni sydd â gwrthwynebiadau cynllunio hysbys na ellir eu goresgyn neu heriau sylweddol na ellir eu datrys.

Os yw cynllun prif raglen o fewn y Cynllun Datblygu Rhaglenni yn ymddangos yn annhebygol o dynnu i lawr ei ddyraniad Grant Tai Cymdeithasol erbyn terfyn amser chwarter 4, bydd swm enwol o £50,000 (beth bynnag oedd y dyraniad gwreiddiol ar gyfer y cyfnod hwnnw) yn cael ei neilltuo i'r cynllun hwnnw. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw danwariant pellach. Gall cynlluniau o'r fath ddibynnu ar unrhyw arian llithriad sydd ar

gael (*nad ydynt wedi'u gwarantu*) os cânt eu cyflwyno ar y funud olaf. Os na fodlonir terfyn amser Llywodraeth Cymru, bydd y cynllun(iau), ynghyd â'r dyraniad gwreiddiol, yn cael ei symud i Brif Raglen y flwyddyn ganlynol.

Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu

Rhaid i unrhyw gynllun sy'n derbyn Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu fynd drwy'r broses grant a thalu (h.y. anfon y dogfennau angenrheidiol i Lywodraeth Cymru), ac mae'r rheolau sy'n llywodraethu gwariant Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu yr un fath ag yr ydynt ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol. Rhaid gwario arian y Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu hefyd yn ardal yr awdurdod lleol lle y'i cynhyrchwyd.

Yn flaenorol, mae Cymdeithasau Tai Cofrestredig yn gyffredinol wedi defnyddio eu Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu i ategu rhaglenni datblygu Grant Tai Cymdeithasol o fewn y Cynllun Datblygu Rhaglenni. Fodd bynnag, mae rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi ceisio defnyddio'r Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu i brynu eiddo o'r farchnad agored. Yn yr achosion hyn, caiff unrhyw eiddo a gyflwynir ei asesu yn erbyn y data galw diweddaraf gan y Tîm Strategaeth Tai a'r Tîm Opsiynau Tai, gan sicrhau addasrwydd, gwerth am arian a chydymffurfiaeth â hawliau enwebu a bennwyd ymlaen llaw.

Cyfrifoldeb y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yw sicrhau bod digon o arian Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu ar gael i brynu'r eiddo arfaethedig. Byddai angen i unrhyw ddiffyg arian gael ei gwmpasu gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu hunain.

Cronfa Tai â Gofal

Bydd cynlluniau i ddarparu gofal a chymorth, yn y lle cyntaf, yn cael eu cyflwyno drwy Fynegiant o Ddiddordeb i'w gymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg ar gyfer cyllid Cronfa Tai â Gofal.

Pan ystyrir bod cynlluniau'n rhy fawr i'w hariannu'n llwyr gan y Gronfa Tai â Gofal, cânt eu cyfuno'n unol ag argaeledd cyllid ar yr adeg benodol honno, e.e. 60% Cronfa Tai â Gofal, 40% Grant Tai Cymdeithasol etc.

Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro

Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau bod Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol, caiff Mynegiant o Ddiddordeb ei ddosbarthu i'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, fel a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, gan ofyn iddynt gyflwyno'u cynlluniau perthnasol a hefyd gael rhestr wrth gefn wedi'i pharatoi i liniaru

unrhyw gynlluniau a allant ddisgyn allan o'r rhaglen am ba bynnag reswm. Anogir Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd i barhau i gyflwyno cynlluniau posib o dan y Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro drwy gydol y flwyddyn, fel y gellir manteisio ar unrhyw lithriad (os yw ar gael).

Cytundeb Adran 106

Mewn rhai achosion, caiff cyfraniad ariannol yn lle darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle ei sicrhau drwy Gytundeb Adran 106. Caiff cyfraniadau o'r fath eu gwario ar dai fforddiadwy drwy ariannu darpariaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Prynu stoc dai bresennol i'w defnyddio fel tai fforddiadwy;
- I ychwanegu at gynllun tai arall er mwyn galluogi darparu mwy o unedau tai fforddiadwy ar y safle;
- I ategu ffrydiau cyllid grant eraill sy'n cael eu defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy.

Pan fydd digon o arian Cytundeb Adran 106 ar gael, caiff Mynegiant o Ddiddordeb ei ddosbarthu i'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan nodi ein gofynion. Ar ôl derbyn Mynegiant o Ddiddordeb, bydd panel asesu sy'n cynnwys y Tîm Strategaeth Tai, Cynllunio Strategol, Polisi Cynllunio ac Ystadau yn cyfarfod i drafod addasrwydd yn unol â'r data galw diweddaraf a chydweddiad ag amcan strategol ehangach.

Mae polisi AH1 Cynllun Datblygu Lleol CnPT yn ceisio sicrhau cyfraniadau tai fforddiadwy o ddatblygiadau preswyl o 3 neu fwy o unedau mewn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol. Yn y lle cyntaf, darperir tai fforddiadwy ar y safle drwy groes-gymhorthdal o werthu tai ar y farchnad agored, ac fe'u sicrhau drwy gytundeb cyfreithiol Cytundeb Adran 106. Bydd y Cytundeb Adran 106 yn ei wneud yn ofynnol i'r unedau fforddiadwy gael eu trosglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fel rhai niwtral o ran deiliadaeth ar 40% o'r Gwerth Marchnad Agored.

Lle caiff arian o Gytundeb Adran 106 ei ymrwymo i gynnig prosiect, bydd y tai fforddiadwy sy'n deillio ohono'n ddarostyngedig i ofyniad i'r **eiddo barhau i fod yn fforddiadwy am byth**. Caiff hyn ei sicrhau drwy gytundeb gosod lleol, lle bydd gan Gyngor CnPT 100% o'r hawliau enwebu. Bydd hyn yn sicrhau bod yr eiddo fforddiadwy'n cael ei feddiannu gan aelwyd a nodwyd y mae angen tai fforddiadwy arni.

Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig arfer diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â chyfamodau cyfyngol, prynu'r rhydd-ddaliad, materion tir ac unrhyw ffactorau eraill cyn cyflwyno unrhyw gaffaeliadau neu

gynlluniau Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu / Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro / Grant Tai Cymdeithasol

Adran 5 – Monitro a Llywodraethu

Mae'r pwyntiau bwled isod yn nodi, mewn termau eang, y gwahanol gyfarfodydd a chyrff sy'n gysylltiedig â threfniadau monitro a llywodraethu lleol mewn perthynas â rhaglenni grant cyfalaf tai fforddiadwy amrywiol Llywodraeth Cymru:

- *Strategaeth Grŵp Grant Tai Cymdeithasol Chwarterol*
- *Cyfarfod Misol Cynllunio ac Ystadau Mewnol CnPT*
- *Tîm Opsiynau Tai CnPT Chwarterol*
- *Cyfarfodydd Dal i Fyny Misol Rheolwyr Datblygu Cynllun Datblygu Rhaglenni y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig*
- *Grŵp Cynllunio Cyfalaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bob Dau Fis*
- *Cyfarfod Misol Mewnol CnPT ar gyfer y Cynllun Datblygu Rhaglenni*
- *Cyfarfodydd Chwarterol Partneriaeth Tai Strategol CnPT*
- *Cyfarfodydd Dal i Fyny Misol Rhaglen Gyfalaf Llety Dros Dro y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig*

Caiff gwybodaeth y Cynllun Datblygu Rhaglenni ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru bob chwarter (gweler y tabl isod). Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sicrhau bod pob carreg filltir ar Borth y Cynllun Datblygu Rhaglenni yn gyfredol ac yn gywir er mwyn galluogi cynllunio strategol gan CnPT a Llywodraeth Cymru.

2026/27	PDP RSL Update Deadline	NPT Group Strategy Meeting	Amser	Lleoliad
Chwarter 1	Canol Mehefin '26	24/06/26	10am hyd at 11.30am	Microsoft Teams
Chwarter 2	Canol Awst '26	26/08/26		
Chwarter 3	Canol Tachwedd '26	11/11/26		
Chwarter 4	Canol Ionawr '27	27/01/27		

Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng CnPT a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn 'agored ac yn dryloyw'.

Disgwylir hefyd i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig weithredu'n ddi-ddwyll wrth chwilio am gyfleoedd datblygu newydd, fel na fydd hynny'n dylanwadu'n negyddol nac yn gor-chwyddo gwerthoedd tir etc.